Safon Gwasanaeth Rheolaeth Bro

Ein nod:
Nod Cartrefi Cymunedol Gwynedd yw darparu Gwasanaeth Bro i wella gwasanaethau ac edrychiad cartrefi ac Ystadau yn ein cymunedau.

Byddwn yn:
Rhoi sylw i chwi yn syth

- Bydd aelod i Dîm Gwasanaethau Bro yn cysylltu gyda chwi o fewn 1 diwrnod o dderbyn eich cwyn
- Cydnabod eich cwyn yn ffurfiol yn ysgrifenedig o fewn 5 diwrnod Gwaith
- Ymchwilio i adroddiadau o eiddo wedi eu gadael a/neu achos i feddiant anghyfreithlon a chymryd gweithrediad addas
- Ymateb i gwynion am eich ystâd/ardal o fewn 10 diwrnod gwaith. Mi fydd aelod o Dîm Gwasanaethau Bro yn ymweld â'r ardal ac yn ddibynnol ar ddifrifoldeb y broblem, delio gyda'r broblem gyda'r tenant neu asiantaeth gywir.

Bod yn rhagweithiol wrth reoli eich cymdogaeth

- Sicrhau bod Wardeiniaid Cymunedol yn ymweld â'ch Cymdogaeth yn rheolaidd
- Ymateb yn syth i adroddiadau am fannau cymunedol gyda materion glanweithdra, mewn cydymffurfiaeth a manyleb cytundebau a threfniadau glanhau. Mi fyddwn yn trefnu bod aelod o Dîm Gwasanaethau Bro yn ymweld â'r safle o fewn 3 diwrnod gwaith a threfnu i'r man gael ei lanhau
- Monitro safon glanweithdra ardaloedd cymunedol fflatiau sy'n derbyn gwasanaeth glanhau ar gytundeb
- Mi fyddwn yn ymdrechu i ymweld â'r safle o fewn 1 diwrnod gwaith os yw'r broblem yn achosi perygl ac yn niweidiol i iechyd a diogelwch
- Monitro cytundebau cynnal tiroedd, sicrhau bod gwaith yn cael ei gwblhau yn gywir er mwyn sicrhau bod y safle o safon dderbyniol
- Archwilio safleoedd lle mae ysbwriel wedi ei ollwng ar ein tir. Mi fyddwn yn trefnu i ysbwriel gael ei symud a hefyd yn gwneud ymholiadau i weld pwy sy'n gyfrifol

Gweithio mewn Partneriaeth gydag asiantaethau eraill

- Cyd drefnu a chyd drafod gydag asiantaethau megis Cyngor Gwynedd, Heddlu, Gwasanaeth Tan ac eraill i greu prosiectau sy'n bwriadu gwneud gwahaniaeth i'ch ystâd, megis diwrnodau glanhau
- Cysylltu ac ymgynghori gyda Thenantiaid a grwpiau o breswylwyr ar newidiadau a gwelliannau i'r ardal

Pan nad ydym ni'n ei chael hi'n iawn

- Rydym yn anelu i wneud popeth yn gywir a chywiro ein camgymeriadau
- Os ydych yn anfodlon gyda'r gwasanaeth yr ydych wedi ei dderbyn gallwch roi gwybod i ni tros y ffôn, trwy llythyr, e-bost neu yn wyneb yn wyneb yn un o'n swyddfeydd.

Adolygu'r Safon Gwasanaeth

- Byddwn yn adolygu'r safonau gwasanaeth yma 12 mis ar ôl eu sefydlu, ac wedi hynny bydd adolygiad pob 3 mlynedd